

Cyngor Cymuned Llanycil

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Mai 19eg 2020 drwy gyfrwng Zoom oherwydd cyfyngiadau argyfwng Covid-19. Yn bresennol oedd Geraint Jones (cadeirydd), Gwynedd Jones, Jean Roberts, Arwel Davies, a'r clerch.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gwynfryn Williams, Euros Puw a'r Cyng. Elwyn Edwards.

Croesawodd y cadeirydd y cynghorwyr a oedd wedi gallu ymuno a'r cyfarfod arlein. Cydymdeimlwyd a Rhys Richards a'r teulu yn dilyn eu profedigaeth yn ddiweddar.

i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Mawrth a chafwyd yn gywir.

ii) Datgan Buddiant.

Ni chofnodwynt unrhyw fuddiant.

iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

a) Ymateb Cyngor Gwynedd i'r cwynion o'r cyfarfodydd diwethaf:-

i) Twell archwilio wedi suddo ar yr allt ym mhentref Rhyduchaf – cafwyd cadarnhad fod y gwaith wedi cael ei gwblhau.

ii) Trwsio'r ffordd gyferbyn a Ty'n Ffordd Ffordd, Rhyduchaf – gofynwyd i'r clerch ail gysylltu a Chyngor Gwynedd i ofyn iddynt pryd y byddant yn trwsio'r ffordd.

iv) Gohebiaeth.

Nid oedd unrhyw ohebiaeth i'w gyflwyno.

v) Ceisiadau Cynllunio.

a) Derbyniwyd y cais cynllunio canlynol a chytunwyd i'w chefnogi:-

NP5/72/LB143K – Caniatad Adeilad Rhestredig i gadw pwmp gwres ffynhonell aer, sgrin a gwaith cysylltiedig. Byd Mary Jones, Eglwys Deuno Sant, Llanycil.

vi) Materion Ariannol

a) Praesept.

Derbyniwyd rhandal cyntaf y Praesept o £2,000.

b) Cynllun Pensiwn Gweithle.

Derbyniwyd llythyr gan y clerch yn cadarnhau nad oedd yn dymuno ymuno a chynllun pensiwn.

c) Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

Zurich (Yswiriant). Cytunodd y clerch wneud trefniadau gyda'r cynghorwyr perthnasol i arwyddo'r siec.

ch) Cyfrifon 2019-20.

Cafwyd adroddiad o'r cyfrifon am y flwyddyn 2019-20 gan y clerch, a chafwyd hwy yn gywir. Cytunwyd i'w arwyddo'n swyddogol unwaith y fyddai'n ymarferol i gwrdd fyny mewn cyfarfod.

d) Archwiliad Mewnol y Cyngor.

Adolygwyd trefniadau archwiliad mewnol y Cyngor a chafwyd yn gywir. Adroddodd y clerch bod y Ffurflen Archwiliad Blyneddol wedi cyrraedd ac roedd trefniadau mewn lle i anfon yr wybodaeth anghenheidiol drwy ebost i Gyngor Gwynedd er mwyn iddynt archwilio'r cyfrifon.

dd) Ceisiadau ariannol

Derbyniwyd ceisiadau ariannol gan Tŷ Gobraith, Bobath a Tarian Cymru. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i'w trafod ymhellach yn y cyfarfod ym mis Mehefin pan fyddai fwy o gynhorwyr yn gallu mynegu barn.

vii) Unrhyw Fater Arall.

- a) Gofynnwyd i'r clerc basio'r materion canlynol ymlaen i Gyngor Gwynedd:-
- i) Culfet angen sylw ar y ffordd o bentref Parc i gyfeiriad Beudy Newydd.
 - ii) Pant yn ffordd ger Pentrefelin, angen rhoi sylw i'r ffos a thrwsio'r ffordd.
 - iii) Angen trwsio'r ffordd ger mynedfa Rafael, Parc.